Mae’r ddogfen yma ar gael yn Saesneg This document is available in English

Sylwadau ar effaith bosibl cau cwrs golff Llangefni ar Ddatblygu Chwaraeon

Rwy'n cytuno â chasgliad y Rheolwr Uned Cefnogi Teuluoedd: 'o gofio bod mwy na digon o fannau agored ar gael yn ardal Llangefni, a’r datblygiadau a'r gwasanaethau newydd ychwanegol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ni fyddai y potensial o gau'r clwb golff yn cael effaith andwyol ar hawliau’r plant a'r bobl ifanc i gael cyfleoedd i chwarae yn yr ardal hon. Wrth gefnogi hyn:

1. Gall plant ac oedolion barhau i gael cyfle i fynd i chwarae golff trwy un o'r chwe chwrs golff ar yr Ynys. Mae ‘r ffaith bod Storws Wen (Brynteg) yn agos i Langefni - a'r ffaith nad yw'n glwb rhy ffurfiol - yn ffactor arwyddocaol ychwanegol;

2. Lleddfwyd y potensial i gau yn y ffaith bod y llain ymarfer yn dal i fodoli. Caiff ei rhedeg gan unigolyn entrepreneuraidd, blaengar sy'n rhoi cyfleoedd i ysgolion lleol a’r gymuned ddysgu;

3. Yn ogystal â’r uchod, mae gan Datblygu Chwaraeon a Golff Cymru fenter i ddatblygu golff i blant a phobl ifanc yn ardal Llangefni'r haf hwn - yn sgil prosiect ‘*Tri Golf’* yn yr ysgolion, yr haf diwethaf;

4. Rwy’n cytuno - ‘nad yw cau’r cwrs golff i’w weld yn cael effaith ar unrhyw grŵp penodol o blant neu bobl ifanc ag anghenion diwylliannol, iaith, amrywiol, anghenion ychwanegol.’

5. Rydym wedi cael fforymau ieuenctid Môn Actif lle mae Adran Hamdden yr Awdurdod yn ymgysylltu ag ysgolion ynghylch gweithgareddau hamdden a chwarae awyr agored i blant ac yn codi ymwybyddiaeth o'r clybiau a'r gweithgareddau awyr agored sydd ar gael yn yr ardal. O ganlyniad i'r ymgysylltiad cymunedol hwn [ac o ystyried nifer o glybiau a chyfleoedd hamdden awyr agored sydd ar gael] ni fyddai cau arfaethedig y cwrs golff yn cael effaith andwyol ar fynediad i weithgareddau chwaraeon awyr agored.

Dave Barker

Rheolwr y Rhaglen Tîm Datblygu Chwaraeon

23/01/20